



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Pontio Teg tuag at Sero Net Cymru: Galwad am Dystiolaeth

Trosolwg

Galwad am Dystiolaeth ar gyfer llywio'r modd y datblygir llwybr datgarboneiddio Cymru tuag at Sero Net erbyn 2050. Bydd hefyd yn darparu cam cychwynnol tuag at y posibilrwydd o ddatblygu *Fframwaith Pontio Teg* i Gymru, a gyhoeddir yn 2023.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 15 Mawrth 2023 yn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

Ar-lein

Gellir anfon ymatebion i'r galwad hwn trwy e-bost i'r cyfeiriad newidhinsawdd@llyw.cymru neu trwy ddefnyddio'r ffurflen ar-lein. Dylid gwneud hyn erbyn 15 Mawrth 2023 fan hwyraf.

Trwy'r post

Lawrlwythwch y ffurflen ymateb. Llenwch hi a'i dychwelyd wedyn i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd ac Effeithlonrwydd Ynni

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays 2

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill. Gellir cael gafael ar y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru [Ymgynghoriadau i LLYW. CYMRU](#).

Manylion cyswllt

Am ragor o wybodaeth:

Yr Is-adran Newid yn yr Hinsawdd ac Effeithlonrwydd Ynni

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

ebost: newidhinsawdd@llyw.cymru

Hysbysiad Preifatrwydd

Pa ddata personol sydd gennym ni a ble rydym ni'n cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfeirio at ddyfais adnabod.

Wrth ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, mae'n ofynnol i chi ddarparu eich enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, gofynnir i chi ddarparu enw a chyfeiriad y sefydliad hefyd.

Er mwyn dangos bod y Cais am Dystiolaeth wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd.

Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych chi'n dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Yna byddwn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Beth yw'r sail gyfreithlon ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth personol rydych chi'n ei darparu inni yn cael ei storio ar weinydd diogel bob amser. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r Cais hwn am Dystiolaeth yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i Gais am Dystiolaeth, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan contract yr ymgwymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Am ba hyd ydyn ni'n cadw eich data personol?

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r Cais am Dystiolaeth, yna caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Dylech fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth hefyd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdano, a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i'ch data gael ei 'ddileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: **01625 545 745** neu **0303 123 1113**

Gwefan: www.ico.gov.uk

Cynnwys

Diben	3
Cyflwyniad	5
Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma	6
Ein dull o ymdrin â Phontio Teg	7
Dulliau Rhyngwladol	7
Llesiant a Phontio Teg	7
Datblygu ein dull gweithredu	7
Pontio tuag at Sero Net – yr effeithiau a'r cyfleoedd	9
Cefndir	9
Effeithiau a Chyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas	9
Effeithiau a Chyfleoedd ar wahanol adegau	9
Effeithiau a Chyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru	10
Yr effeithiau a'r cyfleoedd o ran y sectorau allyriadau	12
Adeiladau Preswyl	12
Allyriadau Aelwydydd	14
Trafnidiaeth	15
Diwydiannau a Busnesau	16
Gwres a Phŵer	17
Amaethyddiaeth	18
Defnydd Tir a Choedwigaeth	19
Gwastraff	19
Y Sector Cyhoeddus	20
Cefnogaeth ar gyfer Pontio Teg	21
Sgiliau	21
Seilwaith Cymdeithasol	21
Y Trydydd Sector, Gwirfoddolwyr a Chymunedau	21
Cyllid	22
Y Camau Nesaf	23

Diben

1. Yn Cymru Sero Net¹ (2021), ailddatganodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i gyflawni 'pontio teg' oddi wrth economi tanwyddau ffosil y gorffennol tuag at ddyfodol newydd carbon isel. Wrth inni symud tuag Gymru lanach, gryfach a thecach, bydd cyflawni pontio teg yn golygu na fyddwn yn gadael neb ar ôl. Byddwn yn datblygu dealltwriaeth glir o effeithiau'r newid, pa un a fyddant yn gadarnhaol neu'n negyddol, ynghyd â dealltwriaeth glir o sut y gellir sicrhau y bydd yr effeithiau hyn yn cael eu dosbarthu'n deg mewn cymdeithas. Wrth wneud hynny, rydym wedi ymrwymo i ddysgu gwersi ar sail y gorffennol ac adeiladu dyfodol i Gymru a fydd yn cefnogi economi lesiant.

2. Mae'r galwad hwn am dystiolaeth yn bwysig o ran sicrhau ein bod yn seilio ein cynlluniau ar dystiolaeth gadarn. Bydd y dystiolaeth a gesglir yn llywio'r modd y datblygir llwybr datgarboneiddio Cymru tuag at Sero Net erbyn 2050. Bydd hefyd yn darparu cam cychwynnol tuag at y posibilrwydd o ddatblygu *Fframwaith Pontio Teg i Gymru*, a gyhoeddir yn 2023.

Elfennau allweddol y Galwad hwn yw ceisio dystiolaeth er mwyn:

- nodi arferion gorau, pa le bynnag y gellir dod o hyd iddynt, ar gyfer rhoi Pontio Teg ar waith yng Nghymru;
- nodi'r effeithiau a'r cyfleoedd ar draws ein cymdeithas a'n heconomi;
- nodi'r seilwaith a'r cymorth sydd eu hangen arnom i sicrhau pontio teg.



¹ 42949 Ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel Cymru Gyfan (2021-2025) (llyw.cymru)

Llywodraethu

- ## Effeithiau a Chyfleoedd

- ## Cymorth ar gyfer Pontio Teg

- 12.** Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn â rôl cyllid a/neu seilwaith cymdeithasol o ran hwyluso neu gyflawni pontio teg?
- 13.** Pa dystiolaeth a gwybodaeth a geir ledled Cymru ar gyfer nodi a meithrin y sgiliau sero net gofynnol?
- 14.** Pa dystiolaeth a geir i ddangos pa gymorth a gwybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn nodi a meithrin y sgiliau sero net gofynnol?
- 15.** A oes yna unrhyw fylchau arbennig o ran ategu pontio teg?
- 16.** Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos cyfranogiad effeithiol pobl, cymunedau a sefydliadau i alluogi eu cyfranogiad o ran datblygu a gweithredu pontio teg? Gan gynnwys galluogi cyfranogiad sy'n cynrychioli safbwyntiau cymunedau amrywiol yng Nghymru yn llawn ac, yn benodol, y rhai â nodweddion gwarchodedig?



Cyflwyniad

3. Gyda llai na deng mlynedd ar ôl i osgoi chwalfa'r hinsawdd fel y rhybuddiwyd gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd, nid yw'r angen i ddatgarboneiddio ein heconomiâu erioed wedi bod mor daer. Mae datgarboneiddio a meithrin y gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn her fawr o ran polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei huchelgais i gyrraedd targed Sero Net erbyn 2050. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd effeithiau newid hinsawdd ac effeithiau datgarboneiddio yn syml nac, o angenrheidrwydd, yn deg, ac y byddant yn effeithio ar wahanol sectorau, sefydliadau a phobl mewn gwahanol ffordd.

4. Rhaid inni sicrhau bod y gwaith o bontio oddi wrth danwyddau ffosil a thuag at Gymru lanach a thecach yn cael ei reoli'n ofalus. Mae gennym ni amryw o ofynion deddfwriaethol allweddol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn atgyfnerthu'r angen i sicrhau bod datgarboneiddio a'r gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn cael eu gwneud mewn modd a fydd yn osgoi creu neu ddwysáu anghydraddoldebau, gan ddefnyddio'r pontio i leihau neu ddileu anghydraddoldebau. Bydd y newidiadau a ysgogir gan yr angen i ddatgarboneiddio ac addasu ein heconomi yn effeithio ar bobl, diwydiannau, elfennau o'r gweithlu a gwahanol gymunedau mewn gwahanol ffordd, gan ddibynnu ar y llwybrau mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn eu dilyn, yn ogystal â sefydliadau a busnesau ehangach a newidiadau technolegol a strwythurol byd-eang.

5. Dros gyfnod yr ail gyllideb garbon (CG2 2021-25) byddwn yn datblygu ein sylfaen dystiolaeth ac yn gwella mwy ar ein dealltwriaeth o'r modd y bydd y pontio'n effeithio ar bobl Cymru, fel y gellir llywio ein hymatebion polisi. Wrth wneud hyn, byddwn yn nodi lle mae gwahaniaethau presennol y bydd angen mynd i'r afael â nhw; neu lle mae risg o anfantais yn dod i'r amlwg, y bydd angen mynd i'r afael â hi. Felly, mae'n hanfodol inni ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn ein dull. Mae hyn yn cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig – megis pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, lle mae ein hasesiad o'r effaith strategol eisoes wedi nodi gwahaniaethau mewn meysydd sy'n berthnasol i bontio – a phobl o amrywiaeth eang o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol. Yn ogystal, gan adlewyrchu ein dyletswydd i roi sylw priodol i hawliau plant, bydd yn bwysig ennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn y broses hon.

6. Mae angen eich cefnogaeth a'ch tystiolaeth chi arnom er mwyn inni allu datblygu ein dull, cynllunio ar gyfer y pontio a deall yr effaith gaiff pontio tuag at Sero Net ar gymdeithas Cymru. Mae angen inni bennu'r effeithiau, y cyfleoedd, y cyfranogwyr, y trefniadau llywodraethu, yr ysgogiadau rheoleiddiol/polisi, a'r sbardunau a'r atalwyr technolegol allweddol mewn perthynas â'r trawsnewid.

7. Y Galwad hwn yw'r cam nesaf o ran datblygu'r sylfaen dystiolaeth, a bydd yn ein helpu i lywio ein dull a'n camau. Y bwriad ar hyn o bryd yw nodi hyn mewn *Fframwaith Pontio Teg* a gyhoeddir yn 2023. Byddai'r Fframwaith, fel y'i gwelir ar hyn o bryd, yn awgrymu ffordd o weithio, nid yn unig ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â datblygu a chyflawni camau'n ymwneud â'r hinsawdd. Y disgwyl yw y bydd yn cynnig canllawiau ar sut i fynd ati i roi gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd ar waith mewn ffordd sy'n cyd-fynd â chyflawni Pontio Teg sy'n gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyflawni ein rhwymedigaethau mewn perthynas â hawliau plant a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Fframwaith Pontio Teg

Bydd y *Fframwaith Pontio Teg*, fel y'i gwelir ar hyn o bryd, yn cynnig dull strategol o gyflawni pontio teg a fydd yn gyfiawn ac yn gynhwysol ac wedi'i adeiladu ar weledigaeth a ysgogir gan 'lesiant' gwell i gymdeithas, ynghyd â dull strategol o weithio tuag ar gyflawni'r nodau datblygu cynaliadwy, gyda'r egwyddor ganllaw na fydd 'neb yn cael ei adael ar ôl'. Bydd y Fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef:

- **adeiladu ar y sylfaen ymchwil a thystiolaeth er mwyn deall yr effeithiau negyddol posibl ar wahanol bobl a grwpiau a'r cyfleoedd i leihau anfanteision;**
- **hyrwyddo integreiddio ar draws ein prosesau penderfynu, sectorau a chynlluniau; ac**
- **ymwreiddio'r arfer o ymgysylltu â'r cyhoedd, busnesau a chymunedau.**

Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma

8. Roedd ein cynllun datgarboneiddio statudol cyntaf, sef *Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel*² a gyhoeddwyd yn 2019, yn cydnabod yr effaith y gallai ymdrechion polisi i ddatgarboneiddio, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ei chael ar bobl Cymru. Roedd cynnig rhif 2 mewn perthynas â Chymru carbon isel yn cynnwys sefydlu Grŵp Cyngori ar Gyfiawnder Hinsoddol i gynghori'r llywodraeth ynghylch pontio oddi wrth economi a oedd yn seiliedig ar danwyddau ffosil. Ar y cychwyn, gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, a oedd hefyd yn awyddus i ddatblygu grŵp ac ymgymryd â gwaith tebyg.

9. Dangosodd y gwaith a wnaed gyda Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru fod trefniadau llywodraethu presennol, megis *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, eisoes yn cynnig cyfle i esgor ar bontio teg yng Nghymru³. Caiff hyn ei atgyfnerthu gan ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

10. Golyga hyn fod ein dull o ymdrin â phontio teg yn cael ei ategu gan ddeddfwriaeth sy'n annog llunwyr polisïau i gymryd golwg 'facro' ar bethau – gan ystyried meysydd ac effeithiau allweddol, megis ar y farchnad lafur a chystadleurwydd busnesau (swyddi, sgiliau, y gweithlu ac ati) yn ogystal ag ar bobl (nodweddion gwarchodedig, statws economaidd-gymdeithasol a hawliau plant).

11. Ar ôl cyhoeddi Cymru Carbon Isel a *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd*⁴, cafodd ein cynllun ymaddasu cenedlaethol – sydd hefyd yn cydnabod y risgiau a'r cyfleoedd a'r ymrwymiad i bontio teg – ei gryfhau yn Cymru Sero Net, lle cafodd ei wneud yn brif bolisi, gan gydnabod y pwysigrwydd a'r angen i weithredu. Ymrwymodd y polisi i wneud cynnydd tuag at bontio teg dros gyfnod Cyllideb Garbon 2(CG2) (2021-25), gan ymrwymo hefyd i weithio'n agos gyda'n partneriaid i ddatblygu ein sylfaen dystiolaeth a gwella ein dealltwriaeth o'r pontio.

12. Mae'r gwaith hyd yn hyn hefyd yn cynnwys adolygu'r gwaith sy'n digwydd ledled y Deyrnas Unedig, Iwerddon, yr Undeb Ewropeaidd a **Grŵp yr Hinsawdd**, gan nodi gwersi y gall Cymru eu dysgu er mwyn ategu a chyflymu ein hymdrechion.



2 *Ffyniant i bawb: Cymru carbon isel* | LLYW.CYMRU

3 *Llywodraethu Trawsnewid Cyfiawn* | WCPPP

4 *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd* (llyw.cymru)

Ein dull o ymdrin â Phontio Teg

13. Deilliodd y cysyniad ‘pontio teg’ o gyd-destun mudiad llafur y 1970au ac mae wedi esblygu a lledaenu i feysydd eraill, yn cynnwys grwpiau cyfiawnder amgylcheddol, y mudiad undebau llafur rhyngwladol, sefydliadau rhyngwladol a'r sector preifat⁵. Ers ei gynnwys yn rhaglith Cytundeb Paris 2015, mae wedi cael ei fabwysiadu mewn cylchoedd byd-eang, cenedlaethol ac is-genedlaethol⁶.

14. Mae'r effeithiau sydd ynghlwm wrth bontio ynni yn debygol o ymestyn ymhell y tu hwnt i'r effeithiau a gaiff eu teimlo gan weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol yn y diwydiannau glo, olew a nwy. Rhaid i'r pontio gynnwys cyfres ehangach o gyfranogwyr a materion, ac mae angen ymyriadau mwy cymhleth na dim ond cyfnewid swyddi ac ailhyfforddi gweithwyr.

15. Mae pontio'n digwydd yn erbyn cefndir o anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, gyda gwahaniaethau mewn lefelau incwm; deiliadaeth cartref; lefel gorlenwi mewn cartrefi rhwng gwahanol grwpiau. Mae pontio teg yn un sy'n galluogi i'r gwahaniaethau hyn gael eu lleihau, nad yw'n gwaethygu anfantais ac sy'n arwain at gymdeithas a sectorau sy'n fwy cyfartal.

Dulliau Rhyngwladol

16. Nid oes unrhyw ddiffiniad o ‘pontio teg’ yn cael ei dderbyn yn gyffredinol. Ceir cryn drafod ynglŷn â'r term ac mae hyn wedi arwain at sawl dull gwahanol o'i fabwysiadu. Fodd bynnag, gwelir bod themâu cyson yn deillio o'r dulliau polisi a roddir ar waith gan wledydd a rhanbarthau wrth iddynt weithio tuag at bontio teg. Mae'r rhain yn cynnwys creu fframwaith cydgysylltiedig, cynllunio hirdymor, meithrin capasiti a chronfeydd. Bydd y *Fframwaith Pontio Teg*, fel y'i gwelir ar hyn o bryd, yn cael ei ddatblygu a'i gyhoeddi yn 2023, a bydd yn cyd-fynd â'r dulliau hyn.

17. Rhaid i'n hymateb i newid hinsawdd gynnwys dull cydgysylltiedig a chydweithredol ledled y byd lle gallwn barhau i ddysgu gwersi gan bartneriaid rhyngwladol. Eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth yr Alban, Under2 Coalition a'r Powering Past Coal Alliance i sicrhau pontio teg.

Llesiant a Phontio Teg

18. Gan adeiladu ar y gwaith a ddisgrifir ym mharagraff 9, mewn gwaith ymchwil diweddar tynnodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru sylw at y ffaith bod yna sawl ffordd o weithio tuag at bontio teg ac, o'r herwydd, bod creu diffiniad, fframwaith neu ddull polisi cyffredinol ar gyfer pontio teg yn dasg broblemus. Fodd bynnag, byddai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, fel fframwaith canllaw, yn cydweddu â nifer o enghreifftiau rhyngwladol, megis y rhai a geir yn yr Alban ac yn Seland Newydd, lle mae mabwysiadu pontio teg oddi mewn i fframwaith Llesiant wedi bod yn fuddiol⁷.

19. Dengys y rhain fod dulliau pontio teg yn cydweddu â nodau a bwriadau sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; er, mae'n bwysig addasu pethau er mwyn adlewyrchu gwahanol gyd-destunau cenedlaethol.

Datblygu ein dull gweithredu

20. Bydd ein dull yn cynnwys adeiladu ar y fframwaith a ddarperir gan fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau plant a hawliau dynol i ddatblygu egwyddorion er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu dull penodol i'r cyd-destun. Ond bydd angen ymgysylltu â chyfres ehangach o gyfranogwyr, yn cynnwys llywodraethau cenedlaethol, llywodraethau lleol, dinasysddion a'r sector busnes. Bydd pob un ohonynt yn allweddol o ran sicrhau y rhoddir pethau ar waith yn deg.

⁵ Part One: The scope and background of 'just transitions' - Just Transitions: a comparative perspective - gov.scot (www.gov.scot)

⁶ Just Transitions: a comparative perspective - gov.scot (www.gov.scot) / report-jtrc-2018.pdf (uncclearn.org)

⁷ Morgan, C., Carter, I., Tilly, H., Haines-Doran, T. & Taylor-Collins, E. (2023). International approaches to a just transition. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

21. Gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n dyletswyddau cydraddoldeb wrth galon a chraidd ein dull, bydd angen i'r dull hwnnw gynnwys pedwar math o gyfiawnder, sef:

- Cyfiawnder Dosbarthol, sy'n ceisio rhannu baich a manteision y pontio mewn ffordd deg a chydabod a mynd i'r afael â gwahaniaethau sy'n bodoli eisoes rhwng grwpiau.
- Cyfiawnder Gweithdrefnol, sy'n anelu at sicrhau cynhwysiant teg wrth wneud penderfyniadau.
- Cyfiawnder Adferol, sy'n ceisio adfer yr effaith yn deg a defnyddio'r manteision i hybu cymunedau.
- Cyfiawnder sy'n pontio'r Cenedlaethau.

22. Gellid cymhwyso'r dull cyffredinol hwn at amrywiaeth o senarios, yn cynnwys rhai gofodol, sectoraidd neu sefydliadol. Hefyd, gellid cymhwyso'r dull at ddatblygu polisi datgarboneiddio a pholisi ymaddasu i newid hinsawdd. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall sut gellid defnyddio neu ddatblygu prosesau penderfynu presennol a/neu rôl cyllid ar gyfer pontio teg bwriadus, er mwyn sicrhau llwyddiant. Bydd deall yr effaith a gaiff gweithredu cynlluniau hinsawdd Cymru ar unigolion, cymunedau penodol a busnesau yn hollbwysig o ran sicrhau y bydd modd i'r pontio oresgyn anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

23. Er mwyn dechrau ar y broses o ddatblygu ein dull, rydym yn ceisio enghreifftiau ymchwil ac enghreifftiau ymarferol.

Cwestiynau

Llywodraethu

- 1.** A oes gennych unrhyw dystiolaeth i ddangos sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi cael ei defnyddio, neu sut y gellir ei defnyddio, i lywio pontio teg?
- 2.** Pa enghreifftiau sydd gennych o brosesau penderfynu neu egwyddorion canllaw y gellid eu defnyddio trwy'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gynllunio a sicrhau pontio teg?
- 3.** A oes gennych unrhyw dystiolaeth ynglŷn â'r ffordd orau y gallwn ni gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth fynd ar drywydd pontio teg?



Pontio tuag at Sero Net – yr Effeithiau a'r Cyfleoedd

Cefndir

24. Wrth i'r gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd gyflymu a chynyddu, mae hi'n hollbwysig inni fynd i'r afael â'r risgiau sydd ynghlwm wrth bontio 'digynllun' tuag at sero net. Rhaid inni sicrhau pontio teg a fydd yn cyfoethogi llesiant Cymru ac yn cyfrannu at ffyniant byd-eang a chynaliadwyedd hirdymor, heb waethygu anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes.

25. Mae yna gyfleoedd pwysig y gellir gwneud yn fawr ohonynt yn sgil y broses hon; ond hefyd, mae grwpiau gwahanol mewn cymdeithas yn wynebu heriau ac anawsterau, ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoedd ledled Cymru.

Effeithiau a Chyfleoedd ar gyfer gwahanol grwpiau mewn cymdeithas

26. Yng Nghymru, efallai y bydd grwpiau incwm isel neu'r rhai o grwpiau mwy agored i niwed yn wynebu risg uwch o ddioddef effeithiau negyddol sydd, yn ei dro, yn golygu bod y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig yn wynebu mwy o risg hefyd. Er enghraifft, mae data Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) ar gyfer Cymru yn dangos bod y cartrefi hynny y mae penteulu'r aelwyd o grŵp ethnig gwyn yn llai tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol⁸. Yn yr un modd, mae cysylltiadau cryf rhwng anabledd a thlodi. Mae pobl anabl yn llawer mwy tebygol o fod ag incwm isel na phobl nad ydynt yn anabl, fel ag y mae pobl sy'n byw mewn cartref gyda rhywun sy'n anabl. Ledled y DU yn 2019–20, roedd gan oedolion o oedran gweithio a oedd yn anabl risg o 32% o fod mewn tlodi incwm cymharol o gymharu ag 17% o oedolion o oedran gweithio nad oeddent yn anabl⁹. Mae'r sefyllfa economaidd bresennol yn tynnu sylw at yr anghydraddoldebau sy'n dal i fodoli yn ein system gymdeithasol, gan ddangos ei bod hi'n bwysicach nag erioed inni sicrhau tegwch wrth gyflawni datgarboneiddio mewn ffordd a fydd yn gwella bywydau pobl.

27. Ymhellach, mae effaith y pandemig COVID a'r heriau economaidd a ddilynodd wedi ymwreiddio anghydraddoldebau iechyd yn fwy fyth ledled Cymru¹⁰. Yn ddi-os, mae cymunedau ledled Cymru wedi teimlo'r effeithiau ar eu hiechyd corfforol a meddyliol, ond mae'r rhain wedi cael effeithiau anghymesur ar rai pobl a chymunedau. Gwyddom fod effaith negyddol wedi dod i ran dewisiadau'n ymwneud â bwyd a gweithgarwch corfforol mewn cymunedau lle mae anghydraddoldebau iechyd yn bodoli eisoes.

28. Er bod addasu ein ffordd o fyw er mwyn ymdopi â'r argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd yn cynnig peth cyfle i leihau'r defnydd o ynni a'r defnydd o nwyddau a deunyddiau, gwyddom hefyd nad yw pawb yn y boblogaeth yn creu allyriadau carbon i'r un graddau â'i gilydd nac yn gallu ymateb i'r heriau o fod â llai o gyfleoedd neu adnoddau. Bydd y bobl hynny sydd fwyaf agored i ddioddef yn sgil yr argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd yn tueddu i fod ag ôl troed carbon is¹¹. Byddwn yn anelu at ddatgloi'r manteision er mwyn gwella llesiant, a chreu cymdeithas fwy cyfartal ac is ei charbon i bawb.

29. Wrth sicrhau pontio gwirioneddol deg, byddwn yn datblygu ein polisiâu mewn modd a fydd yn rhoi blaenoriaeth i ymgysylltu â'r rhai a all gyflawni'r newid ynghyd â'r rhai sydd fwyaf agored i ddioddef effeithiau yn sgil y pontio, yn cynnwys y grwpiau hynny sydd fwyaf ar y cyrion, er mwyn sicrhau dull gwirioneddol deg. Byddwn yn sicrhau ein bod yn lliniaru unrhyw 'effeithiau goferu' sy'n perthyn i ddatgarboneiddio, yn gwneud yn fawr o bob cyfle i gynyddu'r manteision i'r gymdeithas, yn bachu ar gyfleoedd i leihau gwahaniaethau ac yn osgoi 'adleoli' allyriadau carbon neu niweidiau amgylcheddol neu gymdeithasol dramor.

30. Bydd angen inni gynnwys pobl yn ystod pob cam, a dyna pam mae pontio teg wedi'i ymwreiddio yn ein hegwyddorion canllaw ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

⁸ Llywodraeth Cymru (2021). Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020

⁹ Aelwydydd islaw incwm cyfartalog: ar gyfer blynyddoedd ariannol yn diweddau 1995 i 2020 - GOV.UK (www.gov.uk)

¹⁰ Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniad (llyw.cymru)

¹¹ It's high time to talk about the climate impacts of high consumers | Sheffield Hallam University (shu.ac.uk)


Strategaeth ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Gweithredu gan y Cyhoedd (2022–2026)

Wrth inni addasu ein ffordd o fyw er mwyn ymdopi â'r argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd, rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd deg. Er mwyn cyflawni hyn, gwyddom fod angen inni gyfrannu at wella ein dealltwriaeth o'r effaith a gaiff newid hinsawdd ar lesiant pobl, cymunedau, gweithwyr a busnesau, fel rhan o'r pontio teg. Bydd y Strategaeth yn sicrhau ein bod yn defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar bobl – dull a fydd yn annog pobl i gymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau'n ymwneud â'r pontio. Mae'r Strategaeth ddrafft, a gyhoeddwyd ar 20 Hydref ar gyfer ymgynghori yn ei chylch, yn pennu fframwaith ac egwyddorion canllaw yn ymwneud â sut y gellir cyflawni hyn. Bydd y strategaeth derfynol yn cael ei chyhoeddi yng ngwanwyn 2023, gan ddangos ffordd drawslywodraethol a thraws-sector o weithio er mwyn sicrhau y bydd gennym ddull cwbl gydgyssylltiedig.

Effeithiau a Chyfleoedd ar wahanol adegau

31. Bydd y gwaith o bontio gwahanol sectorau yn digwydd ar wahanol adegau. Mae'n bosibl y bydd gwahanol rannau o'n heconomi yn newid yn gyflymach wrth i gyfleoedd newydd ddod i'r amlwg, a/neu mewn gwahanol leoliadau, ac fe allai hynny esgor ar heriau i fusnesau a gweithwyr o ran sicrhau pontio llwyddiannus, mewn modd amserol, gan gael gafael ar y sgiliau gwyrdd newydd ar yr un pryd. Yn ogystal, mae gan y trydydd sector, gan gynnwys gwirfoddolwyr, sefydliadau cymunedol a chyfleusterau cymunedol gyfraniad pwysig ac, mewn sawl ffordd, unigryw i'w wneud, ond mae'n wynebu heriau unigryw hefyd. Mae llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cynnig man cychwyn inni ar gyfer nodi amserlen lefel uchel mewn perthynas â'r polisiau a'r targedau sero net a bennwyd gan y DU a Chymru hyd yn hyn. Er bod y llwybrau hyn yn ychwanegu rhywfaint o eglurder, ceir bylchau o hyd ar draws amrywiaeth o sectorau. Ceir rhagor o fanylion yn yr adrannau sy'n ymdrin â sectorau penodol.

Ffig 1 Cerrig Milltir Allweddol o ran Polisi hyd at 2050



32. Bydd angen inni ystyried amseriad yr effeithiau, a bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu prosesau carbon isel – rhywbeth a allai effeithio ar faint y gweithlu ac ar y sgiliau sy'n angenrheidiol. Mae meysydd eraill y dylid eu hystyried yn cynnwys mabwysiadu technolegau newydd yn ogystal â materion trawsbynciol fel pontio digidol, arweinyddiaeth, rheoli a sgiliau pobl – bydd yr elfennau hyn i gyd yn bwysig i weithlu'r dyfodol.

Effeithiau a Chyfleoedd mewn gwahanol rannau o Gymru

33. Mae diwydianeiddio a phontio economaidd blaenorol yn dal i ddylanwadu ar ddaearyddiaeth economaidd a dynol Cymru: ardaloedd o gwmpas trefi ac ardaloedd trefol mawr. Datblygodd De Cymru yn sgil y diwydiant glo a'r diwydiannau trwm; ac yng Ngogledd Cymru, cafodd y diwydiant llechi, amaethyddiaeth a'r môr ddylanwad mawr ar aneddiadau ac ar y dirwedd. I raddau helaeth, mae Cymru wedi pontio oddi wrth economi sy'n seiliedig ar gloddio am adnoddau, ond mae gweithgynhyrchu yn dal i fod â rhan fwy yn economi Cymru o gymharu â gweddill y DU¹². Mae hyn yn cynnwys diwydiannau drud-ar-garbon, fel terfynellau nwy hylifedig naturiol a phurfeydd olew yn Sir Benfro a gweithfeydd dur ym Mhort Talbot a Chasnewydd, ynghyd â safleoedd gweithgynhyrchu awyrennau a chydrrannau cerbydau sy'n rhedeg ar danwyddau ffosil.

34. Ni fydd effeithiau'r pontio yn cael eu dosbarthu'n deg ar draws y wlad, a bydd y sectorau sydd fwyaf agored i'r pontio wedi'u crynhoi mewn rhanbarthau penodol, gyda nifer ohonynt eisoes yn delio â heriau economaidd-gymdeithasol eraill. Mae ardaloedd a allai wynebu risg uchel yn cynnwys Castell-nedd Port Talbot, lle ceir y ganran uchaf o weithwyr a gyflogir yn y diwydiannau trwm¹³ ac mae ganddi'r gyfradd uchaf ond un o anweithgarwch economaidd ymhlith holl awdurdodau lleol Cymru¹⁴. Nid yw pontio teg yn golygu y bydd y swyddi hyn yn gadael Cymru. Yn hytrach, mae'n golygu bod angen inni weithio gyda'r diwydiannau hyn, a'u trawsnewid, fel y gellir cynhyrchu'r cynhyrchion mewn ffyrdd a fydd yn esgor ar lai o garbon. Bydd angen sgiliau a gwybodaeth newydd ar gyfer cyflawni hyn.

35. Hefyd, ceir cyfleoedd yn ymwneud â rolau a fydd yn angenrheidiol i gefnogi pontio tuag at sero net mewn sectorau nad oes ganddynt leoliad penodol, a bydd eu hangen ar hyd a lled Cymru – megis gosod pypiau gwres a swyddi ar gyfer ôl-osod adeiladau.

36. Yn 2020, roedd yr amcangyfrifon yn awgrymu bod oddeutu 11,000 o weithwyr yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi carbon isel yng Nghymru¹⁵. Mae'r mwyafrif o weithwyr sy'n gweithio yn yr economi carbon isel yn gweithio yn y maes 'cynhyrchion effeithlon o ran ynni', yn cynnwys cynhyrchu a gosod goleuadau sy'n effeithlon o ran ynni, a systemau rheoli ynni fel mesuryddion deallus. Fodd bynnag, disgwylir gweld newidiadau mawr yn y dyfodol o ran ble yn union y bydd cyfleoedd swyddi newydd i'w cael.



¹² Datblygu-sgiliau-ar-gyfer-pontio-cyfiawn.pdf (wcpp.org.uk)

¹³ Datblygu-sgiliau-ar-gyfer-pontio-cyfiawn.pdf (wcpp.org.uk)

¹⁴ Cyfraddau anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn (llyw.cymru)

¹⁵ Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar yr Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy (LCREE), a gynhaliwyd yn 2020 – Low carbon and renewable energy economy, UK – Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

Yr effeithiau a'r cyfleoedd o ran y sectorau allyriadau

37. Mae adran ganlynol y papur hwn yn cyflwyno rhagor o gyd-destun ar gyfer yr holl feysydd rydym angen tystiolaeth yn eu cylch. Rydym angen deall yr effeithiau a'r cyfleoedd a ddaw i ran busnesau a chymunedau ar draws ein sectorau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cynnwys tai, trafnidiaeth, diwydiannau a busnesau, y sector pŵer, amaethyddiaeth, defnydd tir, y sector cyhoeddus a gwastraff. Bydd hyn yn ein galluogi i gydweddu sectorau allyriadau nwyon tŷ gwydr â Cymru Sero Net a llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd¹⁶, sef ein man cychwyn ar gyfer datblygu ein llwybr Sero Net er mwyn inni allu gwneud y penderfyniadau iawn dros drigolion Cymru. Caiff yr wybodaeth am allyriadau a gyflwynir yn y paragraffau canlynol ei seilio ar ein dadansoddiad cychwynnol o ddata nwyon tŷ gwydr sydd i'w olrhain i 2020¹⁷.

38. Rydym yn ceisio eich barn a'ch tystiolaeth. Hefyd, rydym yn awyddus i glywed am astudiaethau achos ac enghreifftiau o arloesi ac arferion gorau.

39. A wnewch chi gyflwyno tystiolaeth yn ymwneud â'r cwestiynau canlynol:



Cwestiynau

Effeithiau a Chyfleoedd

4. Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn â'r prif effeithiau a'r prif gyfleoedd sy'n gysylltiedig â bodloni'r targed o weld Cymru yn pontio tuag at Sero Net? Cyflwynwch dystiolaeth (neu nodwch fylchau mewn tystiolaeth) ar gyfer y tymor byr (2022 i 2025), y tymor canolig (2026 i 2035) a'r hirdymor (2036 i 2050).

5. A oes gennych unrhyw dystiolaeth i ddangos beth fydd y manteision a'r heriau o ran llesiant ar gyfer pob sector?

6. Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn â sut y gallai pontio mewn un sector ddwysáu neu leihau risgiau neu gyfleoedd mewn sector arall?

7. Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn â'r effeithiau a'r cyfleoedd gofodol ledled Cymru?

8. Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn ag effeithiau'r pontio ar gydraddoldeb? Ble mae gwahaniaeth presennol y gellid mynd i'r afael ag ef drwy bontio? Beth yw'r risgiau sydd angen mynd i'r afael â nhw?

9. Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn â'r rhai mae'r pontio yn debygol o effeithio arnynt?

10. Pwy/beth yw'r cyfranogwyr, y trefniadau llywodraethu, yr ysgogiadau rheoleiddiol/polisi a'r sbardunau a'r atalwyr technolegol allweddol mewn perthynas â phontio pob sector?

11. A oes gennych unrhyw dystiolaeth arall a fydd yn helpu i nodi'r effeithiau a'r cyfleoedd ar draws ein llwybrau allyriadau, neu a oes bylchau i'w cael mewn tystiolaeth?

¹⁶ Llwybr Cytbwys y Pwyllgor ar Newid hinsawdd

¹⁷ Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yn ôl Blwyddyn (llyw.cymru)

Adeiladau Preswyl


40. Er mwyn sicrhau pontio gwirioneddol deg, rhaid inni ddeall yr effaith a gaiff lleihau ein hól troed carbon ar aelwydydd ynghyd â'r heriau a'r cyfleoedd o ran gwella llesiant pobl. Ar y cyfan, mae allyriadau a gysylltir ag adeiladau preswyl yn allyriadau sy'n deillio o losgi tanwyddau mewn cartrefi, er enghraifft ar gyfer gwresogi a choginio – yn 2020, roedd yr allyriadau hyn yn cyfateb i hyd at 97% o allyriadau'r sector ac 11% o gyfanswm allyriadau Cymru.

41. Mae llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cynnwys dyddiad ar gyfer rhoi'r gorau i osod boeleri tanwydd ffosil cyn 2035, er mwyn sicrhau y bydd dulliau carbon isel o wresogi yn ddigonol i ddatgarboneiddio adeiladau erbyn 2050. Ymhellach, dylid rhoi'r gorau i werthu boeleri olew erbyn 2028, a boeleri nwy erbyn 2033 mewn cartrefi preswyl, ac eithrio boeleri nwy 'parod o ran hydrogen' mewn ardaloedd lle bydd y grid nwy yn troi at ddefnyddio hydrogen carbon isel.

42. Mae'r argyfwng costau byw yn golygu bod sicrhau tegwch wrth ddatgarboneiddio yn fwy taer nag erioed. Mae'r sefyllfa economaidd a chymdeithasol sydd ohoni yn tynnu sylw at anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein system trwy ddimensiynau gwahanol. Er enghraifft, awgryma gwaith ymchwil diweddar fod tloidi tanwydd yn debygol o fod wedi cynyddu ymhlith lleiafrifoedd ethnig yng nghanol yr argyfwng ynni presennol¹⁸. Mae ymchwil gychwynnol wedi tynnu sylw at y cysylltiad hwn, gan dynnu sylw at y ffaith bod angen gwneud mwy o ymchwil¹⁹. Mae ymchwil wedi dangos hefyd fod pobl anabl yn fwy tebygol na gweddill y boblogaeth o fod wedi lleihau eu gwariant ar hanfodion megis gwres a bwyd oherwydd y cynnydd mewn costau byw, gyda phedwar o bob deg person anabl yn gwario llai yn y maes hwn²⁰. Hyd yn oed cyn y cynnydd diweddar mewn costau ynni, mae pobl anabl eisoes yn fwy tebygol o fyw mewn cartref oer dros fisoedd y gaeaf. Gall hyn fod oherwydd bod gan bobl anabl gostau byw uwch oherwydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. Yn benodol, mae pobl anabl yn wynebu costau ynni ychwanegol yn aml, felly mae cynnydd mewn prisiau tanwydd yn effeithio'n anghymesur ar y boblogaeth anabl^{21, 22}.

43. Caiff cyfoeth ledled y DU, fel mewn nifer o wledydd sydd wedi datblygu'n economaidd, ei rannu mewn modd anghyfartal. Mae'r aelwydydd cyfoethocaf yn berchen ar gyfran anghymesur o gyfanswm cyfoeth y wlad (ac mae'r gyfran honno'n dal i gynyddu) – ac ymddengys y bydd y tuedd hwn yn parhau yn y dyfodol²³.

44. Yn ôl cyfrifiadau Trysorlys Ei Fawrhydi, er bod yr aelwydydd incwm uchaf yn gyfrifol am oddeutu teirgwaith yn fwy o allyriadau o gymharu â'r aelwydydd incwm isaf, mae aelwydydd incwm is yn gwario cyfran fwy o'u hincwm ar nwyddau a gwasanaethau drud-ar-garbon, fel biliau gwresogi a biliau ynni²⁴. Felly, bydd y prisiau ynni presennol sy'n ddibynol ar ffynonellau tanwydd ffosil yn effeithio ar aelwydydd incwm is mewn modd anghymesur, o gofio eu bod yn gwario cyfran uwch o'u hincwm ar filiau cyfleustodau. Yn achos aelwydydd incwm isel yng Nghymru²⁵ mae'n bosibl y bydd eu nifer yn cynyddu'n sylweddol. Rhagwelir bod hyd at 217,700 (98%) ohonynt mewn tloidi tanwydd ers i'r cap ar brisiau gynyddu ym mis Ebrill 2022 a rhagwelir bod 91,700 (41%) ohonynt mewn tloidi tanwydd difrifol²⁶. Hyd yn oed cyn i brisiau ynni godi, amcangyfrifwyd bod 196,000 o aelwydydd yng Nghymru (14%) mewn tloidi tanwydd, ac amcangyfrifwyd bod 23% o aelwydydd yn y sector preifat yn dlawd o ran tanwydd yn 2021 o gymharu ag 13% o berchen-feddianwyr neu ddeiliaid tai mewn tai cymdeithasol. Mae gweddill yr aelwydydd incwm isel mewn perygl o wynebu tloidi tanwydd (3,500, 2%)²⁷. Felly, mae'n hanfodol inni geisio pontio tuag at sero net law yn llaw ag ymdrin â'r argyfwng costau byw.



¹⁸ Energy injustice and Ethnic Minorities in the United Kingdom - CREDS

¹⁹ The diversity penalty: Domestic energy injustice and ethnic minorities in the United Kingdom - CREDS

²⁰ Impact of increased cost of living on adults across Great Britain - Office for National Statistics (ons.gov.uk)

²¹ Disability Price Tag | Disability charity Scope UK

²² How is the cost of living crisis affecting disabled people in the UK? - Economics Observatory

²³ adroddiad-tueddiadaur-dyfodol-cymru-2021-crynodeb-naratif.pdf (llyw.cymru)

²⁴ NZR_-_Final_Report_-_Published_version.pdf (publishing.service.gov.uk) t46

²⁵ Diffinnir aelwyd incwm isel fel aelwyd a chanddi lai na 60% o incwm aelwydydd cymedrig y DU cyn costau tai, fel y'i cyhoeddir yn flynyddol yn yr adroddiad Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog (HBAI) – ystadegau HBAI (Llywodraeth y DU)


²⁶ Amcangyfrifon tloidi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru (prif ganlyniadau): ym mis Hydref 2021 | LLYW.CYMRU

²⁷ Amcangyfrifon tloidi tanwydd wedi'u modelu ar gyfer Cymru: ym mis Hydref 2021 | LLYW.CYMRU

Allyriadau Aelwydydd

Yn y ddogfen hon, mae allyriadau aelwydydd yn cyfateb i ddull Trysorlys Ei Fawrhydi (gweler isod). Mae'r allyriadau hyn i'w gweld ar draws amryfal sectorau allyriadau yn Cymru Sero Net yn ogystal ag allyriadau defnydd (gweler y graff isod²⁸).

Fig 2: Ôl-troed nwyon tŷ gwydr ar gyfartaledd yn ôl deigradd incwm aelwydydd cyfwerth net



Ffynhonnell: Net Zero Review Final Report, Trysorlys EF (2021), Siart 3.D, tudalen 47



28 Net Zero Review Final Report, HM Treasury (2021), Chart 3.D, tudalen 47

45. Bydd datgarboneiddio gwres ac adeiladau yn golygu y bydd angen i aelwydydd gymryd camau effeithlon o ran ynni yn ogystal â gosod ffynonellau gwresogi gwyrdd yn lle rhai sy'n ddibynnu ar danwyddau ffosil. Awgryma dadansoddiad Trysorlys Ei Fawrhydi y bydd yr effaith y bydd aelwydydd yn ei theimlo yn dibynnu ar nifer o ffactorau, yn cynnwys maint yr annedd, gyda chyfran fwy yn wynebu costau uwch, a'r math o annedd, gan fod tai sengl yn fwy tebygol o fod angen dwywaith y buddsoddiad o gymharu â fflatiau uchel iawn²⁹. Gall y gost o fynd i'r afael â thai o ansawdd is ddisgyn yn anghymesur ar y tlotaf mewn cymdeithas, gan waethygu effeithiau tlodi tanwydd.

46. Hefyd, bydd manteision allweddol o ran llesiant yn perthyn i ddatgarboneiddio. Gallai'r rhain gynnwys gwell manteision o ran iechyd, er enghraifft ymweld yn anamlach â'r meddyg teulu oherwydd problemau gyda'r system anadlu isaf, a hynny gan fod pobl yn byw mewn cartrefi cynhesach³⁰. Mae'n bosibl y bydd niferoedd sylweddol o gyfleoedd hyfforddi a swyddi gwyrdd yn cael eu creu, sef rhai'n ymwneud â gwres carbon isel ac ôl-osod cartrefi, adeiladu sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau ac yn y gadwyn gyflenwi oherwydd manteision cadw a defnyddio adnoddau mewn cylchrediad e.e. deunydd wedi'i ailgylchu yng Nghymru. Bydd angen i raglenni i uwchsgilio pobl o fewn y sector, yn ogystal â denu gweithwyr newydd i'r maes sgiliau gwyrdd. Mae gwaith ymchwil gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu yn amcangyfrif y bydd y DU angen 60,000 o weithwyr i osod pypiau gwres mewn adeiladau domestig ac annomestig dros y saith mlynedd nesaf (o gymharu â 900 o osodwyr yn 2019)³¹.

Trafnidiaeth

47. Mae allyriadau'r sector trafndiaeth yn cynnwys allyriadau oddi mewn i Gymru yn ogystal â chyfran Cymru o allyriadau sy'n deillio o hedfan rhyngwladol a morgludiant rhyngwladol. Yn 2020, roedd y sector trafndiaeth yn gyfrifol am 15% o holl allyriadau Cymru. Mae'r polisïau datgarboneiddio allweddol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn ymdrin â rheoli'r galw am drafndiaeth, yn cynnwys hyrwyddo'r arfer o droi at ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, fel trafndiaeth gyhoeddus a theithio llesol, a hyrwyddo'r arfer o brynu cerbydau di-allyriadau. Yn y sector trafndiaeth, mae llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cynnwys dyddiadau'r DU ar gyfer rhoi'r gorau i werthu ceir a faniau newydd sy'n rhedeg ar betrol a diesel, sef 2030, a 2040 ar gyfer cerbydau nwyddau trwm.

48. Mae angen inni ddeall a rhagweld yr effeithiau a fydd yn deillio o gyflwyno technolegau trafndiaeth,

tanwyddau newydd (fel hydrogen) a newidiadau mewn dulliau teithio ledled cymdeithas Cymru. Er enghraifft, er yr ystyrir bod gallu gwefru Cerbydau Trydan gartref yn fantais o ran hwylustod a mynediad at drydan rhatach, nid yw'r opsiwn hwn ar gael i bawb. A ddylai'r llywodraeth barhau i roi cymorthdaliadau i fannau gwefru cerbydau trydan cyhoeddus?

49. Hefyd, wrth droi at system drafndiaeth wedi'i datgarboneiddio, rhaid mynd ati ar yr un pryd i leihau anghydraddoldeb a sicrhau bod y systemau y dibynnwn arnynt bob dydd yn decach. Fodd bynnag, rhaid i'r pontio hwn fod yn deg ynddo'i hun. Yn y bôn, rydym angen pontio teg a fydd yn sicrhau ein bod yn creu system drafndiaeth fwy cyfartal a chynaliadwy, ond a fydd hefyd yn sicrhau bod y manteision a'r costau sydd ynghlwm wrth y datgarboneiddio hwn yn cael eu rhannu'n deg.

50. Nid oes gan tua 15% o aelwydydd yng Nghymru fynediad at gar³², felly maent yn dibynnu ar rannu lifft, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio er mwyn teithio i'r gwaith, i'r ysgol, i apwyntiadau meddygol, ac i weithgareddau cymdeithasol a hamdden. Cerdded a beicio yw'r dulliau teithio rhataf ac isaf eu hallyriadau, ond hefyd mae nifer fawr o fanteision ehangach yn perthyn iddynt, megis manteision iechyd, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Felly, ar gyfer teithiau byrrach, dylid ystyried mai cerdded a beicio yw'r dulliau teithio naturiol. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen inni greu amodau a fydd yn gwneud y dulliau teithio hyn yn ddiogel ac yn ddeniadol. Mae i ba raddau mae'r dulliau trafndiaeth hyn yn cael eu defnyddio yn amrywio. Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021–22 fod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn llai tebygol o gerdded fel dull trafndiaeth na'r rhai mewn ardaloedd trefol – gydag 20% o bobl mewn ardaloedd trefol yn cerdded bob dydd (13% mewn ardaloedd gwledig). Yn ogystal, roedd pobl â salwch neu gyflwr cyfyngus hirdymor yn llai tebygol o gerdded bob dydd (13%) am fwy na 10 munud na'r rhai heb salwch cyfyngus (20%), tra bod dynion yn llawer mwy tebygol o feicio fel dull trafndiaeth o gymharu â menywod³³.

51. Heb gael system drafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy a hygyrch, a fydd yn ddymunol i'w defnyddwyr (yn cynnwys defnyddwyr mewn cymunedau gwledig), bydd unrhyw bontio teg mewn perthynas â thrafnidiaeth yn aneffeithiol ac yn anghyflawn. Yn gysylltiedig â hyn, mae parth mynediad at wasanaethau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2019 yn cynnwys 17 o ddangosyddion amser teithio i wasanaethau allweddol drwy drafndiaeth gyhoeddus a phreifat, ochr yn ochr â dangosydd o ddiffyg argaeledd band eang cyflym iawn. Ar gyfer

²⁹ NZR_-_Final_Report_-_Published_version.pdf (publishing.service.gov.uk)

³⁰ Effaith Cynlluniau Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ar iechyd | LLYW.CYMRU

³¹ Net-zero-jobs.pdf (resolutionfoundation.org) Tudalen 7

³² Llywodraeth Cymru (2022). Arolwg Cenedlaethol Cymru

³³ Teithio llesol (cerdded a beicio) | LLYW.CYMRU

y parth cyffredinol ac ar gyfer mesurau amser teithio unigol, roedd amddifadedd uchel yn gyffredin ar draws ardaloedd gwledig Cymru. Roedd rhai pocedi difreintiedig ger ardaloedd trefol mawr hefyd. Yr awdurdodau lleol â'r gyfran uchaf o ardaloedd bychain yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau oedd Powys (50.6%) a Cheredigion (50.0%).

52. Mae dadansoddiad manwl o ddata Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD) 2014 wedi dangos bod ardaloedd y nodwyd eu bod â phroblemau penodol o ran mynediad at wasanaethau o ran amseroedd teithio hir yn bennaf (ond nid yn gyfan gwbl) yn yr aneddiadau lleiaf o lai na 2,000 o bobl, sef categori sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrif am oddeutu 20% o'r bobl yng Nghymru. Mae ardaloedd sydd ag amseroedd teithio hir iawn yn tueddu i fod â chyfraddau cymharol uchel o berchnogaeth car hefyd. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau y mae angen eu hystyried wrth asesu effaith ein polisïau tuag at Sero Net.

53. Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019-20 yn dangos bod rhai grwpiau eisoes yn defnyddio'r bws yn fwy nag eraill³⁴. Er enghraifft, er bod 16% o oedolion yn defnyddio'r bws yn wythnosol o leiaf, mae'r ganran hon yn cynyddu i 27% ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed ac i 21% ar gyfer pobl hŷn 65-74 oed. Ar ben hynny, roedd 23% o'r rhai mewn amddifadedd materol yn defnyddio bysiau'n wythnosol o leiaf, ynghyd ag 19% o'r rhai sydd â salwch neu gyflwr cyfyngus hirdymor. O ran teithio ar drenau, mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymhell dros hanner y grwpiau oedran hŷn yn dweud nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau trên o gwbl (61% o bobl 65-74 oed, 78% o bobl 75 oed a hŷn). Mae 61% o'r bobl sydd â salwch neu gyflwr cyfyngus hirdymor hefyd yn dweud nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau trên.

54. Yn ogystal, mae tystiolaeth wedi dangos bod pobl anabl yn wynebu costau teithio 'cudd' ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u hanabledd, sy'n pwysleisio pwysigrwydd trafndiaeth fforddiadwy³⁵. Er enghraifft, gall y gost o dalu am gostau teithio gofalar, yn ogystal â chostau teithio'r person ei hun, arwain at gostau teithio drutach. Ar ben hynny, gall rhesymau hygyrchedd arwain at bobl anabl yn teithio ar drên neu mewn tacsï yn hytrach nag ar fws – gan gynyddu'r costau trafndiaeth³⁶.

55. Nododd ymchwil a wnaed gan Titheridge a chydweithwyr (2014) bwysigrwydd trafndiaeth

fforddiadwy i rai grwpiau³⁷. Er bod y cysylltiad rhwng trafndiaeth a thlodi yn y DU yn gymhleth, mae'r awduron yn tynnu sylw at y ffaith bod rhai grwpiau'n wynebu mwy o risg o brofi 'tlodi trafndiaeth'. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, myfyrwyr, pobl hŷn a menywod.

56. Dylai'r system drafndiaeth gyfrannu at greu cymunedau cydlynus a llewyrchus. Felly, rhaid bod yn gynhwysol wrth ymdrin â'r cyfle i wella symudedd a chysylltiadau, a rhaid i'r cyfle hwnnw gyfrannu at lesiant cymdeithas Cymru. Mae adroddiad diweddar a wnaed gan NatCen Social Research (2019)³⁸ yn tynnu sylw at y cyfraniad hollbwysig mae polisi trafndiaeth yn ei wneud at leihau anghydraddoldebau drwy gynorthwyo mynediad at swyddi, addysg a gwasanaethau. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd trafndiaeth fforddiadwy i bobl hŷn drwy eu cysylltu â rhwydweithiau cymdeithasol ehangach. Ar ben hynny, mae'r adroddiad yn dangos bod rhwystrau ychwanegol yn wynebu menywod pan fo trafndiaeth gyhoeddus yn annigonol ac yn anfforddiadwy – gan effeithio ar eu rhagolygon cyflogaeth ac addysgol. Gall hyn fod oherwydd amrywiadau mewn patrymau gwaith sy'n deillio o ymrwymadau gofal plant, gan arwain yn aml at yr angen am sawl taith fer. Fel y nodwyd mewn adroddiad gan Starkey a Hine (2014)³⁹ mae trafndiaeth yn fater cymhleth i fenywod, gyda phryder am ddiogelwch, fforddiadwyedd, cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gofal plant.

57. Er mwyn cael dulliau teithio newydd, bydd angen sgiliau newydd – a hynny yn y meysydd gweithgynhyrchu a chynnal-a-chadw fel ei gilydd. Ymdrinnir â hyn yn yr adran ganlynol sy'n sôn am Ddiwydiannau a Busnesau.

Diwydiannau a Busnesau

58. Yn 2020, y sector diwydiant a busnes oedd yn gyfrifol am 41% o allyriadau Cymru. Cynhyrchu haearn a dur a phuro petrolewm sy'n bennaf cyfrifol am allyriadau diwydiannol Cymru. Hefyd mae diwydiannau ehangach, yn cynnwys gweithgynhyrchu ac adeiladu, cynhyrchu tanwyddau solet, sment, cynhyrchu a dosbarthu nwy, gweithredu peiriannau, mwynau a mwyngloddiau, cynhyrchu cemegau, prosesu a gweithgynhyrchu bwydydd a diodydd, yn ogystal â phapur a mwydion, yn gyfrifol am gyfran helaeth o allyriadau.

34 Arolwg Cenedlaethol Cymru: canlyniadau | LLYW.CYMRU

35 Disabled people's costs of living : more than you would think (lboro.ac.uk)

36 (PDF) Mode choice of older and disabled people: a case study of shopping trips in London | Jan-Dirk Schmöcker, Robert B Noland, Michael Bell, and Michael Bell - Academia.edu

37 Transport and Poverty: a review (ucl.ac.uk)

38 www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/953951/Transport_and_inequality_report_document.pdf

39 www.assets.publishing.service.gov.uk/media/57a089f5ed915d622c00049f/odi-unhabitat-slocat-transport-poverty-review-starkeyhine-141105.pdf

59. Mae yna botensial i'r rhan fwyaf o ddiwydiannau ddatgarboneiddio, ond er mwyn gwneud hyn bydd angen trawsnewid prosesau yn achos rhai diwydiannau, a bydd cyflymder y pontio yn effeithio ar swyddi. Wrth bontio tuag at ddyfodol sero net, bydd angen ailsgilio'r gweithlu ac efallai y bydd maint y gweithlu'n newid mewn diwydiannau penodol. Mae'n debygol iawn y bydd rhai swyddi neu fathau o swyddi yn cael eu disodli, y bydd eraill yn cael eu creu⁴⁰ ac y bydd eraill yn cael eu symud dramor. Bydd effaith hyn yn amrywio ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl. Er enghraifft, mae dros dair gwaith cymaint o ddynion yn cael eu cyflogi yn y diwydiant gweithgynhyrchu yng Nghymru o gymharu â nifer y menywod⁴¹.

60. Mae strwythur diwydiannol presennol Cymru yn cynhyrchu ôl troed carbon sy'n fwy nag ôl troed carbon cyfartalog y DU⁴². Mae hyn yn cynnwys diwydiannau drud-ar-garbon, fel terfynellau nwy hylifedig naturiol a phurfeydd olew yn Sir Benfro a gweithfeydd dur ym Mhort Talbot a Chasnewydd, ynghyd â safleoedd gweithgynhyrchu awyrennau a cherbydau sy'n rhedeg ar danwyddau ffosil. Yng Nghymru, ceir nifer o awdurdodau lleol lle caiff swyddi drud-ar-garbon eu crynhoi. O gofio'r tueddiadau presennol, mae'n debygol y bydd datgarboneiddio yn effeithio ar rai sectorau ynghynt nag eraill ac y bydd angen iddynt addasu i ddatgarboneiddio ynghynt. Mae'r sectorau hyn yn cynnwys effeithlonrwydd ynni cartref a datgarboneiddio gwres; y diwydiant moduro ac ynni glân (CBI, 2021)⁴³.

61. Ymhellach, gallai datgarboneiddio esgor ar effeithiau canlyniadol neu anuniongyrchol ar gyflogaeth a sgiliau yn yr economi ehangach, oherwydd gallai'r effaith sydd ynghlwm wrth ddatgarboneiddio rhyw sector arbennig gael effaith ar gyflogaeth ehangach sy'n gysylltiedig â'r sector hwnnw. Er enghraifft, cyflogir 156,400 o weithwyr yn y maes gweithgynhyrchu cerbydau yn y DU, ond cyflogir 797,300 o weithwyr yn y sector moduro ehangach, yn cynnwys manwerthu a chyllid⁴⁴. Er mwyn inni allu pontio tuag at gerbydau trydan, bydd angen ymdrin â'r bylchau yng ngweithlu'r sector moduro trwy ailhyfforddi ac uwchsgilio'r gweithwyr presennol, yn ogystal â recriwtio gweithwyr newydd⁴⁵. Hefyd, gallai effeithiau 'anuniongyrchol/deilliedig' effeithio ar wasanaethau'r 'economy sylfaenol' yn lleol yn sgil llai

o alw neu gan fod pobl yn symud o'r ardal⁴⁶. Ar gyfer economi gylchol ac effeithlonrwydd adnoddau, gweler yr adran Gwastraff.

62. Mae'n bwysig sicrhau bod y cynnydd yn y galw am fwy o sgiliau technegol a'r broses o greu mwy o swyddi yn fuddiol i bob grŵp poblogaeth. Gall pobl hŷn, pobl anabl a chymunedau ethnig lleiafrifol fod mewn sefyllfa nad yw cystal i fanteisio ar y cyfleoedd newydd sydd ar gael. Er enghraifft, mae pobl anabl yng Nghymru yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau na phobl nad ydynt yn anabl ac maen nhw'n llai tebygol o fod â chymwysterau uwchben lefel 2. Yn yr un modd, mae oedolion o oedran gweithio o leiafrifoedd ethnig (ac eithrio lleiafrifoedd gwyn) yng Nghymru yn fwy tebygol o fod heb gymwysterau nag oedolion gwyn o oedran gweithio (gan gynnwys lleiafrifoedd gwyn)⁴⁷. O ran prentisiaethau yng Nghymru, mae tystiolaeth yn awgrymu eu bod wedi'u gwahanu'n gryf o ran y rhywiau, fel mai dim ond 360 o brentisiaid benywaidd oedd ar y rhaglenni adeiladu a pheirianeg yn 2016–17, er enghraifft, o gymharu ag 8,330 o brentisiaid gwrywaidd⁴⁸. Yn ogystal, mae bwlch cyflogaeth anabledd sylweddol yn parhau yng Nghymru⁴⁹, tra bod cyfraddau cyflogaeth yn parhau i fod yn is ar gyfer grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol⁵⁰.

Gwres a Phŵer

63. Yn 2020, roedd y sector trydan a chynhyrchu gwres yn gyfrifol am 16% o allyriadau Cymru. Mae'r sector yn cynnwys allyriadau sy'n deillio o gynhyrchu trydan mewn gorsafoedd ynni, gwres a ddefnyddir fel sgil-gynnyrch a gwres o nwy sy'n deillio o garthion a gwastraff. Roedd 99.8% o allyriadau'r sector yn deillio o orsafoedd ynni, a gellir priodoli'r gweddill i ddefnydd gorsafoedd ynni o nwy a ddeilliodd o weithfeydd trin carthion, gwastraff solet trefol a safleoedd tirlenwi.

64. Mae'r cyngor a roddodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i Weinidogion Cymru yn cynnwys dyddiadau allweddol – sef na ddylid adeiladu gweithfeydd nwy newydd heb systemau rheoli carbon ar ôl 2030, ac y dylid cael gwared yn llwyr â'r arfer o losgi nwy naturiol i gynhyrchu trydan (oni bai y ceir systemau rheoli carbon) erbyn 2035. Yn achos

⁴⁰ Datblygu-sgiliau-ar-gyfer-pontio-cyfiawn.pdf (wcpp.org.uk) tudalen 8

⁴¹ Nomis (2022). Workforce jobs by industry (SIC 2007) and sex – unadjusted

⁴² PIP007-Wales-Productivity-Challenge-FINAL-011221.pdf

⁴³ Papur sgiliau Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, tudalen 9

⁴⁴ SMMT-Motor-Industry-Facts-Sept-2021.pdf

⁴⁵ 2040_Gigafactory_Report_FINAL.pdf (faraday.ac.uk) tudalen 20

⁴⁶ Datblygu-sgiliau-ar-gyfer-pontio-cyfiawn.pdf (wcpp.org.uk) tudalen 10

⁴⁷ Llywodraeth Cymru (2022). Lefel y cymwysterau uchaf a ddeler gan oedolion o oed gweithio: 2021

⁴⁸ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2018). Is Wales Fairer?

⁴⁹ Llywodraeth Cymru (2022). Crynodeb o weithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn a statws anabl, o Ebrill 2013

⁵⁰ Llywodraeth Cymru (2022). Crynodeb o'r gweithgarwch economaidd yng Nghymru yn ôl blwyddyn ac ethnigrwydd

unrhyw waith nwy a gaiff ei adeiladu cyn 2030, dylid sicrhau ei fod yn barod i Ddal a Storio Carbon neu i ddefnyddio hydrogen (dylai hyn fod yn dechnegol ddichonol a dylid lleoli'r gwaith mewn rhan o'r wlad lle ceir y seilwaith angenrheidiol)⁵¹.

65. Yn 2021, câi llai nag 1% o weithwyr Cymru eu cyflogi yn y sector cyflenwi trydan a nwy⁵². Yn ôl y Tasglu Swyddi Gwyrdd, amcangyfrifir y gallai'r sector gwynt ar y môr yn y DU gyflogi oddeutu 70,000 o weithwyr (40,000 o swyddi uniongyrchol a 30,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi) erbyn 2026. 26,000 o weithwyr a gyflogir yn y sector hwn ar hyn o bryd (15,000 o swyddi uniongyrchol ac 11,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi)⁵³. Amcangyfrifir y dylai'r gyflogaeth gynyddu yn ystod pob cam o gylch oes y prosiect, ond yn arbennig yn ystod y camau adeiladu a gosod a hefyd yn ystod y camau gweithredu a chynnal-a-chadw, ac y bydd galw mawr am dechnegwyr a pheirianwyr.

66. Bydd angen i Gymru wneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil pontio tuag at ynni adnewyddadwy, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer sgiliau a chyflogaeth. Er enghraifft, mae Gorsaf Bŵer Aberddawan yn esiampl o ailddatblygu cyfleusterau a arferai losgi glo, a bellach mae'n safle ynni gwyrdd a chanddo'r potensial i greu miloedd o swyddi⁵⁴.

Amaethyddiaeth

67. Yn 2020, roedd amaethyddiaeth yn gyfrifol am 15% o holl allyriadau Cymru. Mae llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cyd-fynd â gostyngiad o 20% yn y galw am gig a chynhyrchion llaeth erbyn 2030, gyda'r ganran yn codi i 35% erbyn 2050 ar gyfer cig yn unig. Hefyd, gostyngiad o 50% mewn gwastraff bwyd erbyn 2030 a 60% erbyn 2050. Mae'r llwybr cytbwys hefyd yn cynnwys cynyddu maint cyfartalog cnydau, cyfraddau storio da byw ar laswelltiroedd a symud garddwriaeth dan do. Ymhellach, mae'n cynnwys cyfradd o 50-75% o ran mabwysiadu arferion ffermio carbon isel ar gyfer newid ymddygiad a thrwy arloesi ynghyd â defnyddio trydan a hydrogen i redeg peiriannau amaethyddol.

68. Mae'n bwysig inni ddeall yr effeithiau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth gynnig dyfodol sefydlog a chynaliadwy i ddiwydiant ffermio a chymunedau gwledig Cymru mewn modd a fydd yn ymdrin â newid hinsawdd a cholledion bioamrywiaeth. Mae amaethyddiaeth yn sector drud-ar-garbon.

Yn 2019, roedd rhywfaint dros 3% o weithlu Cymru yn gweithio yn y sector hwnnw⁵⁵. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys gweithlu'r gadwyn gyflenwi wrth weithgynhyrchu a phrosesu bwyd. Mae'r Tasglu Swyddi Gwyrdd wedi nodi galwedigaethau, gofynion o ran sgiliau a chymwysterau i ategu newid o fewn y sector, megis hwsmonaeth pridd, archwilio carbon a chynghor ynghylch carbon, rheoli coed a biomas, cadwraeth a bioamrywiaeth⁵⁶.

69. Pe bai defnyddwyr cenedlaethol a rhyngwladol yn dewis newid eu deiet a phe bai pobl yn penderfynu bwyta llai o gig a chynhyrchion llaeth, fe allai hynny effeithio ar fusnesau amaethyddol a busnesau bwyd sydd ar waith ar hyn o bryd yng Nghymru. O safbwynt allyriadau a chostau, nid yw hyrwyddo bwyd lleol i ategu datgarboneiddio o angenrheidrwydd yn helpu. Nid yw ôl troed carbon "bwyd lleol" bob amser yn is. Ac eithrio cludiant awyr, yn aml nid yw logisteg yn gyfrifol ond am ran fechan o ôl troed carbon y cynnyrch; felly, gan ddibynnu ar fanylion y broses gynhyrchu, mae'n bosibl y bydd gan fwydydd a gynhyrchir yn lleol ôl troed carbon uwch na'r un cynhyrchion a gynhyrchir ymhell i ffwrdd. Gall "bwyd lleol" fod yn ddrutach na dewisiadau eraill gan nad yw'r broses gynhyrchu mor effeithlon yn economaidd. Golyga hyn na fydd "bwyd lleol", o bosibl, yn lliniaru'r argyfwng costau byw i bobl, oherwydd fel arfer mae'n ddrutach na dewisiadau eraill a werthir mewn siopau manwerthu prif ffrwd, fel archfarchnadoedd.

70. Ar hyn o bryd, mae defnyddwyr y DU yn wynebu cynnydd cyflym mewn chwyddiant – yn y 12 mis hyd at fis Medi 2022, gwelwyd cynnydd o 14.6% ym mhrisiau bwydydd a diodydd dialcohol⁵⁷. Mae dadansoddiad y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn awgrymu bod aelwydydd yn y degraddau incwm isaf yng



51 [Advice-Report-The-path-to-a-Net-Zero-Wales.pdf](#)

52 [Swyddi cyflogaeth yng Nghymru yn ôl diwydiant a blwyddyn \(llyw.cymru\)](#)

53 [Green Jobs Taskforce \(publishing.service.gov.uk\)](#) tudalen 19

54 [Cardiff Capital Region's green energy plans for Aberthaw Power Station set to create thousands of jobs – Prifddinas-Ranbarth Caerdydd](#)

55 [Cyflogaeth yn y gweithlu yn ôl diwydiant ac ardal \(llyw.cymru\)](#)

56 [gjt-annex.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#) tudalen 16

57 [Consumer price inflation, UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#)

Nghymru yn gwawrio mwy na chwarter eu hincwm (26.2%) ar fwyd ac ynni, o gymharu â'r deigradd incwm uchaf sy'n gwario 11.8% o incwm eu haelwyd ar y pethau hynny. Golyga hyn fod y cynnydd ym mhrisiau nwyddau hanfodol, fel bwyd, yn debygol o effeithio fwyaf ar yr aelwydydd tlotaf yng Nghymru⁵⁸. Mae data arolwg ONS yn dangos bod pobl anabl, y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, y rhai sydd ag incwm is a'r rhai mewn tai rhent yn fwy tebygol o fod wedi lleihau eu gwariant ar fwyd a hanfodion oherwydd eu costau byw uwch⁵⁹.

Defnydd Tir a Choedwigaeth

71. Ar -0.6 MtCO₂e, gwelwyd lleihad net yn allyriadau'r sector Defnydd Tir a Choedwigaeth yn 2020. Lleihaodd yr allyriadau yn bennaf gan fod tir coedwig wedi cael gwared â charbon deuocsid o'r atmosffer. Fodd bynnag, mae'r sector yn cynnwys dalfeydd carbon (gweithgareddau sy'n tynnu carbon deuocsid o'r atmosffer) yn ogystal â ffynonellau allyriadau. Yn 2020, y dalfeydd carbon mwyaf oedd tir coedwig presennol (68%), cynhyrchion pren a gynaeafwyd (11%) a throï tiroedd â'r yn laswelltiroedd (8%). Gwelir bod y ffynonellau allyriadau mwyaf yn y sector wedi deillio o droi glaswelltiroedd yn diroedd â'r (35%), tiroedd â'r presennol (14%), aneddiadau presennol (13%) a throï glaswelltiroedd yn aneddiadau (9%).

72. Mae llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn mynnu y dylid cael 4,500 hectar o goedwigoedd bob blwyddyn erbyn 2025, gan gynyddu i 7,500 hectar erbyn 2035. Hefyd, mae'n mynnu y dylid adfer ein mawndiroedd a'u rheoli mewn modd cynaliadwy.

73. Bydd mesurau polisi sy'n anelu at gynyddu coedwigoedd/coetiroedd ac adfer neu gynyddu mawndiroedd yn esgor ar fanteision ehangach i ffermwyr ac i gymdeithas. Er enghraifft, lliniaru effeithiau newid hinsawdd ar gymunedau sydd mewn perygl, megis llifogydd a thanau gwyllt, a rheoleiddio dŵr yn well. Maent yn esgor ar fanteision i fioamrywiaeth ac ecosystemau, ynghyd â manteision economaidd i ffermwyr ac i'r gymuned wledig, a hefyd maent yn cynnig manteision hamdden i gymdeithas gan wella iechyd a llesiant. Bydd mentrau fel Coedwig Genedlaethol Cymru yn gwneud hyn trwy gysylltu a chyfoethogi coetiroedd; bydd yn gwella mynediad at fannau gwyrdd a choetiroedd i holl drigolion Cymru ac, yn ei dro, bydd hyn yn cynnig cyfle i dynnu sylw at y modd y gall awyr agored Cymru fod o fudd i weithgarwch corfforol, ynysigrwydd cymdeithasol

ac iechyd meddwl. Hefyd, ceir cyfleoedd o ecosystemau cadarn a gaiff eu rheoli'n dda sy'n ymwneud â thwf glas. Ymhellach, fe allai'r sector hwn weld twf sylweddol o ran gweithwyr proffesiynol ym meysydd yr amgylchedd a chadwraeth, megis parcmyn cefn gwlad, gweithwyr coedwigaeth a masnachwyr garddwriaethol, yn ogystal â gweithredwyr peiriannau medrus, ymarferwyr adfer, gweithredwyr dronïau, hydrolegwyr ac ecolegwyr. Yn ôl y Tasglu Sgiliau Gwyrdd, ychydig o gymwysterau a chyfleoedd sydd i'w cael ar hyn o bryd ar gyfer gweithio gyda mawndiroedd neu waith adfer o fath arall, a bydd angen cynyddu cynlluniau hyfforddi er mwyn diwallu'r galw am lafur.

74. Mae gan goedwigaeth a'r diwydiant pren botensial mawr i liniaru'r newid yn yr hinsawdd hefyd drwy ddefnyddio ein pren ar gyfer cynhyrchion gwerth uwch a all ddal a storio carbon, er enghraifft, drwy ddefnyddio pren wrth adeiladu. Bydd y strategaeth ddiwydiannol ar gyfer pren yn ystyried sut y gallwn ddatblygu a chynnal gwaith cynhyrchu a phrosesu pren gwerth uchel yng Nghymru. Bydd hyn yn effeithio ar y rhai sy'n gweithio yn y sector ar hyn o bryd ac ar y gweithlu a'r sgiliau y bydd eu hangen yn y sectorau coedwigaeth ac adeiladu.

Gwastraff

75. Ar 1.0 MtCO₂e, roedd Gwastraff yn gyfrifol am 3% o allyriadau Cymru yn 2020. Safleoedd tirlenwi a gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw'r prif ffynonellau, ond bydd mesurau'n ymwneud ag effeithlonrwydd adnoddau yn effeithio ar y rhan fwyaf o sectorau. Mae llwybr cytbwys y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cynnwys gostyngiad o 51% mewn gwastraff bwyd bwyttadwy erbyn 2023, a 61% erbyn 2050*, ynghyd â gostyngiad mewn gwastraff o bob math erbyn 2037 (y DU) a chyfradd ailgylchu o 70% yng Nghymru erbyn 2025. Ar gyfer Cymru, mae hefyd yn cynnwys gwaharddiad ar bob math o wastraff yng Nghymru erbyn 2025 ynghyd â dal 80% o fethan ac ocsideiddio 10% o CH₄ erbyn 2050 (y DU). Yn olaf, mae'n cynnwys gwelliant o 21% mewn prosesau trin dŵr gwastraff erbyn 2030 a gwelliant o 23% mewn compostio (data'r DU).⁶⁰

76. Hefyd, mae'r modd y rheolwn adnoddau yn cael effaith sylweddol ar allyriadau sectorau eraill, yng Nghymru ac yn rhyngwladol. O gofio bod 45%⁶¹ o allyriadau'r byd yn deillio o nwyddau a chynhyrchion a gaiff eu gwneud a'u defnyddio bob dydd, rydym angen dull a fydd yn peri inni aildefnyddio adnoddau ac osgoi gwastraff o bob math: hynny yw, economi gylchol.

⁵⁸ Sut mae'r wasgfa costau byw yn effeithio ar wresogi, bwyta a thai yng Nghymru? (senedd.cymru) / UK-Economic-Outlook-Winter-2022-1.pdf (niesr.ac.uk)

⁵⁹ What actions are people taking because of the rising cost of living?

⁶⁰ gjtf-annex.pdf (publishing.service.gov.uk) tudalen 16

⁶¹ Cymru Sero Net | LLYW.CYMRU Tudalen 25

77. Golyga hyn y bydd angen cyflymu'r hyn a wnawn i gynyddu effeithlonrwydd adnoddau, ailddefnyddio, trwsio ac ail-weithgynhyrchu ar draws pob sector o'r economi, gan geisio ailhyfforddi gweithwyr a chynyddu swyddi da ledled Cymru, a phan fo'n briodol, defnyddio deunyddiau cynaliadwy (yn cynnwys rhai naturiol) yn lle deunyddiau carbon uchel a drud-ar-ynni. Awgryma tystiolaeth⁶², y gallai twf yr economi gylchol greu rhwng 54,000 a 102,000 o swyddi net trwy holl ranbarthau'r DU erbyn 2030. Caiff cyfran helaeth o'r cynhyrchion trydanol a ddefnyddir yn y DU (dros 80%) eu mewnforio. Trwy droi at economi fwy cylchol, mae'n bosibl y bydd y galw am nwyddau wedi'u mewnforio yn lleihau ac mae'n bosibl y gwelir cynnydd mewn swyddi'n lleol, yn enwedig yn y maes trwsio. Bydd y gweithwyr hyn angen sgiliau yn y meysydd trwsio a gweithgynhyrchu.

78. Trwy ddefnyddio adnoddau mewn modd mwy cylchol ac arafu llif deunyddiau trwy arbed, ailddefnyddio a thrwsio cynhyrchion, a hefyd trwy ailgylchu a rhannu asedau, mae yna bosibl rwydd y bydd modd lleihau'r galw am danwyddau ffosil ac adnoddau sylfaenol eraill na ellir eu hadnewyddu. Felly, fe allai pontio tuag at economi gylchol gael effaith niweidiol ar y gweithwyr, y busnesau a'r gwledydd hynny sy'n dibynnu ar echdynnu ac allforio tanwyddau ffosil, metelau a mwynau.

Y Sector Cyhoeddus

79. Yn y rhestr nwyon tŷ gwydr, dim ond allyriadau sy'n deillio o adeiladau'r sector cyhoeddus yr ymdrinnir â nhw, ac mae'r allyriadau hynny'n fach. Fodd bynnag, mae cwnpas a dylanwad y sector cyhoeddus yn ymestyn y tu hwnt i'w allyriadau uniongyrchol, a dyna pam mae gennym uchelgais yng Nghymru o gael sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030.

80. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus⁶³ credwn fod yr allyriadau hyn wedi'u hollti'n fras ar draws caffael (60%), adeiladau (20%) a symudedd a thrafnidiaeth (20%). Bydd nifer o ffactorau yn mynnu cyfraniad mawr gan y sector cyhoeddus, gan ei fod yn meddu ar ysgogiadau hollbwysig; ond mae ganddo hefyd rôl arwain bwysig o fewn ei gymunedau lleol. Mae'r sector cyhoeddus yn meddu ar ysgogiadau ar lefel y DU, Cymru a llywodraeth leol.

81. Rhaid i Gymru wneud ei rhan trwy newid yr hyn a brynir, newid y pethau a gaiff eu defnyddio a newid y pethau y buddsoddir ynddynt, oherwydd gall y dewisiadau hyn sbarduno arferion anfoesegol a dirywiad amgylcheddol dramor, gan wthio problemau yn uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi ac arwain at ddinistrio cynefinoedd byd-eang a chreu problemau cymdeithasol. Gall y broses gaffael helpu i sicrhau bod cadwyni cyflenwi yn deg, yn foesegol ac yn gynaliadwy – mae hyn yn bwysig am nifer o resymau, yn cynnwys rhwymedigaeth ddeddfwriaethol Cymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fynd i'r afael â datblygu cynaliadwy sy'n anelu at gyflawni'r nodau llesiant. Un o'r nodau hyn yw Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang. Yn yr un modd, mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrif am ystyriaethau cydraddoldeb posibl ar wahanol gamau'r cylch caffael.

82. Er nad ydym yn deall eto sut effaith a gaiff pontio teg ar ddarparu gwasanaethau nac ar y gweithle – y cyflogwr mwyaf ond dau yng Nghymru – fe allai'r effaith fod yn sylweddol.



⁶² Green Jobs Taskforce (publishing.service.gov.uk) tudalen 25

⁶³ Statws carbon sero-net erbyn 2030: Trywydd ar gyfer ddatgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru (llyw.cymru)

Cefnogaeth ar gyfer Pontio Teg

83. Mae'r adran hon yn nodi'r elfennau trawsbynciol sy'n angenrheidiol i ategu ac ysgogi pontio teg ar gyfer Cymru gyfan.

Sgiliau

84. Er bod llawer o'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer pontio tuag at sero net yn ymwneud â diwydiannau neu sectorau penodol, bydd y pontio angen lluo o sgiliau nad ydynt yn unigryw i rolau gwyrdd ac, yn wir, bydd yn cefnogi sgiliau o'r fath. Bydd sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg (STEM) yn sylfaen i swyddi sy'n allweddol o ran bwrw ymlaen â phontio tuag at Gymru sero net. Er enghraifft, bydd angen gwyddonwyr i arloesi'r technolegau newydd yn y maes ymchwil ac arloesi a bydd angen peirianwyr i feddwl trwy systemau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau cymhleth sy'n perthyn i ddatgarboneiddio. Y tu hwnt i STEM, mae'r Tasglu Sgiliau Gwyrdd wedi nodi nifer o feysydd eraill sydd hefyd yn hanfodol er mwyn sicrhau gweithlu ar gyfer cyflawni targedau sero net. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sgiliau digidol a sgiliau data y bydd diwydiannau fel cynhyrchu trydan adnewyddadwy eu hangen, lle bydd angen gwell defnydd o ddata a sgiliau digideiddio er mwyn ymdrin â natur ysbeidiol y dechnoleg a hyblygrwydd o ran storio
- bydd angen rheolwyr prosiect ar draws yr holl ddiwydiannau wrth bontio tuag at sero net er mwyn sicrhau y bydd modd rheoli amserlenni ac y bydd modd gweithio o fewn cyllidebau
- bydd angen addysgwyr, hyfforddwyr ac aseswyr i brif ffrydio'r ddarpariaeth sgiliau gwyrdd trwy'r sector cyhoeddus a'r sector preifat; a
- bydd angen sgiliau arwain i sbarduno newidiadau diwylliannol ar gyfer yr economi werdd ynghyd ag arwain a dylanwadu ar y pontio gan fod angen ymwreiddio technolegau, ymddygiadau a systemau newydd.



Seilwaith Cymdeithasol

85. Rhaid i'n seilwaith cymdeithasol fod yn gadarn a rhaid iddo allu addasu i'r newidiadau a ddaw yn sgil newid hinsawdd. Mae seilwaith cymdeithasol yn cynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau a chyfleusterau, megis rhai'n ymwneud ag iechyd, addysg, gofal plant, diwylliant a ffydd. Mae'r gwasanaethau hyn yn sail i gymdeithas Cymru a byddant â rôl hanfodol o ran ategu pontio teg tuag at sero net.

86. Hefyd, rhaid i'n seilwaith cymdeithasol chwarae rôl bwysig yn y dasg o sbarduno pontio teg – o ran sbarduno'r pontio ei hun, er enghraifft trwy hyrwyddo llythrennedd carbon a chreadigrwydd yn ein hamgueddfeydd a'n canolfannau diwylliannol, ond hefyd o ran sbarduno'r pwyslais ar gyfiawnder trwy ddarparu gwasanaethau cyffredinol sy'n seiliedig ar gydraddoldeb, megis y GIG.

87. Wrth greu pontio teg, ceir cyfle i effeithio'n gadarnhaol ar yr agenda Pwysau Iach: Cymru Iach trwy newid ymddygiad a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â'r modd y gall camau ein partneriaid ddylanwadu ar newid.

Y Trydydd Sector, Gwirfoddolwyr a Chymunedau

88. Mae'n hanfodol bod cymdeithas sifil yn cael ei chydabod fel rhan hanfodol o'n seilwaith cymdeithasol a'i chynnwys yn llawn wrth gynllunio a chyflwyno'r fframwaith.

89. Mae gan y trydydd sector, gwirfoddolwyr a chymunedau amrywiaeth o rolau, gan gynnwys fel eiriolwr ac asiantau newid. Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, o bob maint, y mae mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yn ganolog i'w cylch gwaith a'u hethos, ynghyd â llawer mwy sy'n rhannu gwerthoedd tebyg, beth bynnag yw eu diben craidd. Yn aml mae sefydliadau o'r fath yn arloeswyr ac yn mabwysiadu technolegau newydd a ffyrdd gwyrddach o weithio yn gynnar.

90. Mae'r trydydd sector yn estyn yn ddwfn i bob rhan o Gymru ac mae'n weithlu sylweddol iawn ynddo'i hun hefyd, gan gynnwys staff cyflogedig a gwirfoddolwyr, er ei fod yn un sydd wedi'i wasgaru ar draws miloedd o sefydliadau.

91. Mae cyfraniad a photensial y sector i'w deimlo gryfaf efallai ar y lefel leol iawn, drwy sefydliadau cymunedol, gwirfoddolwyr lleol a chymorth gan un

cymydog i'r llall. Dangoswyd hyn yn amlwg yn ystod y pandemig Covid, mewn ffyrdd a allai roi syniad o sut y gallai cymunedau gyfrannu orau at ddarparu Pontio Teg tuag at Sero Net.


92. Mae cyfleusterau cymunedol yn ganolog i gamau gweithredu lleol yn aml a gallant wynebu heriau amlwg hefyd. Fel arfer, mae ganddynt nodweddion tebyg i adeiladau preswyl, neuaddau ysgol ac ati, megis gofod mawr i'w wresogi a system hen ffasiwn i wneud hynny.

Cyllid

93. Bydd cyllid yn elfen alluogi hanfodol mewn perthynas â gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd trwy'r holl economi. Er mwyn i Gymru allu cyflawni pontio teg i bawb, bydd angen rhoi camau ar waith i gyflawni ein nodau hinsawdd mewn modd a fydd yn deg i bawb. Trwy grynhoi adnoddau ariannol, gellir helpu i ostwng allyriadau ynghyd ag arwain at fanteision macroeconomaidd ac adenillion buddsoddi, ond hefyd gellir ysgogi rhagor o swyddi (a swyddi gwell), adfywio cymunedau a lleihau anghydraddoldeb ledled y wlad⁶⁴. Mae hyn yn golygu crynhoi adnoddau ariannol cyhoeddus, preifat a chymunedol mewn ffyrdd newydd ac uchelgeisiol.

Cwestiynau

- 12.** Pa dystiolaeth sydd gennych ynglŷn â rôl cyllid a/neu seilwaith cymdeithasol o ran hwyluso neu gyflawni pontio teg?
- 13.** Pa dystiolaeth a gwybodaeth a geir ledled Cymru ar gyfer pennu a meithrin y sgiliau sero net gofynnol?
- 14.** Pa dystiolaeth a geir i ddangos pa gymorth a gwybodaeth ychwanegol sy'n angenrheidiol er mwyn nodi a meithrin y sgiliau sero net gofynnol?
- 15.** A oes yna unrhyw fylchau arbennig o ran ategu pontio teg?
- 16.** Pa dystiolaeth sydd gennych i ddangos cyfranogiad effeithiol pobl, cymunedau a sefydliadau i alluogi eu cyfranogiad o ran datblygu a gweithredu pontio teg? Gan gynnwys galluogi cyfranogiad sy'n cynrychioli safbwyntiau cymunedau amrywiol yng Nghymru yn llawn ac, yn benodol, y rhai â nodweddion gwarchodedig.



64 **Financing a Just Transition** - Grantham Research Institute on climate change and the environment (lse.ac.uk)

Y Camau Nesaf

94. Rydym yn awyddus i siarad â phobl ac ymgysylltu'n helaeth fel rhan o'n Galwad am Dystiolaeth. Bydd ymatebion i'r alwad am dystiolaeth yn cael eu dadansoddi a'u gwerthuso fel y gellir:

- llywio'r modd y datblygir llwybr Cymru ar gyfer cyflawni Sero Net erbyn 2050
- helpu i ddatblygu *Fframwaith Pontio Teg* a fydd, os yn briodol, yn cael ei gyhoeddi yn ystod 2023.

Ymhellach, bydd yr ymatebion yn rhan bwysig o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer datblygu polisi newid hinsawdd yng Nghymru. Byddem yn ddiolchgar o dderbyn sylwadau cyffredinol yn ogystal ag ymatebion yn ymwneud â chwestiynau penodol yn y Cais am Dystiolaeth.

